# PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD EDC-02-99 (min) W

**Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor**

**Dyddiad:** Dydd Mercher 30 Mehefin 1999

**Amser:** 09:00 - 12:00

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presenoldeb**

*Aelodau*

Ron Davies (Cadeirydd) Caerffili

Alun Cairns Gorllewin De Cymru

Val Feld Dwyrain Abertawe

Michael German Dwyrain De Cymru

Brian Hancock Islwyn

Ann Jones Dyffryn Clwyd

Helen Mary Jones Llanelli

Rhodri Morgan (YC) Gorllewin Caerdydd

Phil Williams Dwyrain De Cymru

Alun Michael (Prif Ysgrifennydd)* Gorllewin a Channolbarth Cymru

** Yn bresennol o dan reol sefydlog 8.17*

*Swyddogion*

Derek Jones Uwch Gyfarwyddwr Materion Economaidd

Michael Cochlin Cyfarwyddwr y Grp Datblygu Economaidd

David Richards Prif Swyddog Cyllid

*Ysgrifenyddiaeth*

Helen Usher Clerc

Vaughan Watkin Dirprwy Glerc (Gweithredol)

**Sylwadau agoriadol y Cadeirydd**

*Croeso*

Croesawodd y Cadeirydd Alun Michael, y Prif Ysgrifennydd, i'r Pwyllgor, ac esbonio bod Mr Michael yn bresennol er mwyn helpu'r Pwyllgor wrth iddynt ystyried materion ariannol (eitem 2 ar yr agenda).

**Eitem Agenda 1: Cofnodion cyfarfod 16 mehefin 1999 (EDC-01-99 (min) (W)**

1.1 Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- ar ôl y cyfarfod yr oedd y swyddogion wedi bod yn edrych ar y gwahaniaeth rhwng y rhagolygon gan BSL a ddyfynnwyd yn y papur (EDC-01-99-P1) a gyflwynwyd i'r Pwyllgor a ffigur BSL a ddyfynnwyd gan y WDA yn ei ddogfen ymgynghori. Yr oedd ffigur y WDA (1.2%) yn anghywir (a dywedwyd hynny wrth yr Aelodau);
- yr oedd yna sylfeini gwahanol ar gyfer cymharu cyfraddau twf;
- at ddibenion y cofnod, yr oedd y Pwyllgor wedi gobeithio y gallai Edwina Hart fod yn bresennol yn y cyfarfod.

3. Dywedodd y cadeirydd wrth y Pwyllgor y câi'r papur gyda'r diweddaraf ar yr adolygiad Ardaloedd Cymorth y gofynnwyd amdano yn y cyfarfod blaenorol ei gylchredeg yn ystod y prynhawn.

*Crynodeb y Cadeirydd*

1.3 Crynhowyd y drafodaeth gan y Cadeirydd fel a ganlyn:

- dylid diwygio indent 10 ac 11 ym mharagraff 2 i ddangos y flwyddyn gywir (1999 nid 2000-01) ac i adlewyrchu'r ffaith nad oedd y Swyddfa Gymreig na'r WDA yn cynhyrchu rhagolygon mewn gwirionedd;
- nad cofnod gair am air oedd y cofnodion ac nad oedd felly yn bosibl cynnwys pob pwynt a godid yn y cofnodion;
- er bod y drafodaeth ar ragolygon wedi codi yn sgil gwallau yn adroddaid ymgynghori cyhoeddus y WDA, yr oedd yn rhaid o hyd i'r cofnodion adlewyrchu'r trafod a gafwyd;
- un o ddyletswyddau'r Pwyllgor oedd craffu ar waith y sgg a'r cyrff a noddid ganddi;
- yr oedd yn siom bod dyddiad cyhoeddi'r Strategaeth Datblygu Genedlaethol a'r Dogfennau Rhaglennu wedi llithro i 14 Gorffennaf, ond yr oedd croeso i'r ailddrafftio sylweddol.
- cytunodd y Pwyllgor y byddai'n barod i ystyried mewn achosion eithriadol ddogfennau yn Saesneg yn unig pe bai hyn yn golygu y gallai'r aelodau gael fersiynau terfynol o'r dogfennau cyn iddynt gael eu cyhoeddi. Cadarnhaedd y Pwyllgor ei ddymuniad (fel a nodir ym mharagraff 3.4 o EDC-01-99(min)) i ystyried y dogfennau cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl ar ôl trefnu eu bod ar gael.

**1.4 Yn ddarostyngedig i'r diwygiadau y cytunwyd arnynt (a nodwyd ym mhwynt 1 uchod) derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o gyfarfod**

**16 Mehefin 1999.**

**Agenda Eitem 2: Materion Ariannol (EDC-02-99(P. 1))**

2.1 Cymerwyd y drafodaeth hon mewn dwy ran: materion yn ymwneud â gweithredu bloc y Swyddfa Gymreig; a materion yn ymwneud ag ychwanegedd. Ymunodd y Prif Ysgrifennydd a Mr David Richards (Prif Swyddog Cyllid y Cynulliad) â'r Pwyllgor ar gyfer y drafodaeth.

*Y Bloc*

2.2 Dyma'r pwyntiau a drafodwyd:

- ers diwedd y 1970au pennwyd yr ychwanegiadau blwyddyn am flwyddyn i'r Bloc Cymreig yn ôl Fformwla Barnett;
- cymhwysid y fformwla hon, a seiliwyd ar boblogaethau cymharol Cymru a Lloegr, at unrhyw newidiadau yng ngwaelodlinau adrannau Lloegr ar gyfer rhaglenni cymaradwy;
- cyflwynwyd y fformwla ar adeg pan oedd ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddatganoli a phan y'i gwelid fel ffordd o osgoi trafodaethau blynyddol anodd ar gyllido yng Nghymru a'r Alban;
- yn y blynyddoedd cynnar gwneid hyn fesul rhaglen, ond yn ddiweddar seiliwyd y cyfrifo

ar gyfansymiau adrannol ar gyfer rhaglenni cymaradwy;

- gallai ffactorau cymaradwyedd (a oedd bellach yn cael eu cyhoeddi) newid rhwng y blynyddoedd;
- er bod fformwla Barnett wedi bod yn fecanistig, nes i'r ffactorau cymaradwyedd gael eu cyhoeddi nid oedd wedi bod yn bosibl cysoni newidiadau yng ngwario'r adrannau yn Lloegr â newidiadau i'r Bloc;
- gallai newidiadau yn y ffactorau cymaradwyedd gael effaith fawr ar faint y Bloc;
- cafwyd llawer o newidiadau mewn ffactorau cymaradwyedd rhwng 1998-99 a 1999-2000. Byddai dadansoddiad o'r rhain, gan gynnwys rhesymau a chanlyniadau yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor;
- cyn i fformwla Barnett gael ei gyflwyno yr oedd gwariant y pen yn uwch yng Nghymru nag yn Lloegr. Dyma oedd yn wir o hyd, er bod y gwahaniaeth canrannol wedi erydu oherwydd cyfuno;
- ar ôl yr etholiad ym 1997 ymgymerodd y Llywodraeth ag Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant (CRS). Yr oedd yn ofynnol i bob adran ystyried ei holl wariant am gyfnod o dair blynedd. Ar ôl trafodaethau gyda'r Trysorlys dyrannwyd cyllideb i bob adran dros gyfnod o 3 blynedd a gafodd ei sefydlogi wedyn;
- Pennwyd y Bloc Cymreig drwy gymhwyso Fformwla Barnett at newidiadau y cytunwyd arnynt ar gyfer adrannau eraill o dan y CSR ac yr oedd y gwaelodlinau ar gyfer y 3 blynedd nesaf yn hysbys ac yn sefydlog;
- Gwnaed dyraniadau o fewn y Bloc gan y Gweinidogion ar ôl CSR mewnol;
- Yr oedd y Llywodraeth wedi ymgynghori ar ganlyniadau'r CSR. (Gofynnodd un Aelod am gael gweld yr ymatebion).
- Byddai'r CSR nesaf yn dechrau yn 2000 ac yn cynnwys 2001-02 i 2003-2004;
- Yr oedd cytundeb yn y DU i ystyried, yn ôl eu haeddiant, sylwadau gan y Cynulliad yngln â goblygiadau gwariant cyhoeddus sy'n deillio o statws Amcan 1 yn y CSR nesaf;
- Yr oedd angen i'r Cynulliad gyflwyno i'r Trysorlys achos cryf ar gyfer cyllid ychwanegol os oedd i gymryd mantais o'r cronfeydd sydd ar gael gan y CE;
- yr oedd yna anfanteision a manteision i fformwla Barnett ac yr oedd y Pwyllgor am ystyried a ddylid adolygu'r fformwla;
- nodwyd bod adrannau eraill yn gwario arian yng Nghymru, mwy y pen yn aml yng Nghymru nag yn y rhannau eraill o'r DU. Yr oedd hyn yn aml oherwydd mwy o angen (e. e yr Asiantaeth Budd-daliadau).
- Yr oedd yn annhebygol y byddai Cymru'n cael cyllid ychwanegol ar gyfer 2000-01 heblaw efallai mewn perthynas â mentrau arbennig (e.e yn y gorffennol cafodd Cymru ei rhan o'r arian ychwanegol a ddarparwyd ar sail y DU er mwyn lleddfu argyfwng gwelyau yn y gaeaf);

*Crynodeb y Cadeirydd*

3. Crynhowyd rhan gyntaf y drafodaeth gan y Cadeirydd fel a ganlyn:

- Yr oedd angen i'r Pwyllgor wybod sut yn union y câi'r Bloc Cymreig ei bennu os oedd i

wneud penderfyniadau ar wariant, yn enwedig mewn perthynas â rhaglenni y CE;
- Yr oedd angen i'r Cynulliad archwilio pob llwybr er mwyn sicrhau bod cymaint o gyllid â phosibl yn dod i law;
- yr oedd ffactorau cymaradwyedd yn effeithio'n fawr ar faint y Bloc ac yr oedd angen dadansoddiad o'r hyn a newidiodd rhwng 1998-99 a 1999-200, paham y cafwyd y newidiadau hyn a beth oedd y canlyniadau;
- Yr oedd Fformwla Barnett wedi bod ar waith ers dros 20 mlynedd ac yr oedd angen ystyried a oedd yn bryd ei adolygu.

*Camau i'w cymryd*

2.4 Gofynnwyd i'r swyddogion gyflwyno i'r Pwyllgor:

- Ddadansoddiad o'r newidiadau yn y ffactorau cymaradwyedd;
- Papur yn cynnwys dadleuon o blaid ac yn erbyn adolygu Fformwla Barnett;

3. Swyddogion i roi i Ms Feld fanylion o'r ymatebion a ddaeth i law ar gyfer yr ymgynghori ar y CSR diwethaf.

**Gweithredu: David Richards**

*Ychwanegedd*

3. Dyma'r prif bwyntiau:

- yr oedd y DU yn cydymffurfio â rheolau Ewropeaidd a oedd yn ei gwneud yn ofynnol cyfrifo ychwanegedd ar sail y DU;
- Yr oedd y DU wedi cytuno ar sut i ddelio ag ychwanegedd gyda'r CE ym 1992. O dan y setliad nid oedd cyfanswm gwario Llywodraeth y DU wedi cynyddu, ond yr oedd yna wario ychwanegol ar raglenni penodol;
- Amcangyfrifwyd bod rhwng £1.5bn a £2.0bn o gronfeydd strwythurol y CE ar gael i Gymru ar gyfer Amcan 1 a 2 am y cyfnod 2000-06;
- Yr oedd gan y DU nifer o ardaloedd Amcan 1 ond ardaloedd bach oeddent i gyd. Er hynny yr oedd 37 y cant o gyfanswm Amcan 1 yng Nghymru;
- Yr oedd y gwahaniaeth yn golygu na fyddai Cymru'n cael cyfran deg o wariant a gyllidir gan y CE pe defnyddid Fformwla Barnett yn unig (ni fyddai ond yn cael 5.95 y cant ar hyn o bryd);
- Yr oedd yna awgrym na ddylai cyllid Ewropeaidd gael ei gynnwys yn y ffigur wrth gymhwyso fformwla Barnett. Yna byddai cronfeydd Ewropeaidd yn cael eu dyrannu'n uniongyrchol;

- Yr oedd pryder y gallai adrannau yn Lloegr gael mynediad i gronfeydd y CE yn gynt na Chymru am bod ganddynt fwy o hyblygrwydd yn eu cyllidebau;
- Rhyw £40m y flwyddyn oedd y gwaelodlin hanesyddol ar gyfer cronfeydd strwythurol yn y Bloc. Byddai cyllid ychwanegol yn 2001-02 a'r ddwy flynedd wedyn yn cael ei ystyried yn ystod y CSR nesaf;
- Ar gyfer Gronfa Gymdeithasol Ewrop, byddai'n ofynnol i'r Adran Addysg a Chyflogaeth ddod o hyd i gyllid ar gyfer rhaglenni yng Nghymru;
- Yr oedd cynnydd cynlluniau'n araf a'r gwir gwestiwn oedd a oedd y £40m ar gyfer y flwyddyn gyntaf yn ddigon i sicrhau y byddai unrhyw gynlluniau a all ddechrau yn gallu gwneud hynny;
- yr oedd angen i'r Llywodraeth ddangos yn y Rhaglen Ddogfennu a gyflwynid ganddi i'r CE y gellid bodloni rhwymedigaethau cyllido. Yr oedd angen i hon gynnwys amcanestyniadau o ran faint o gyllid y byddai ar y sectorau preifat a gwirfoddol eu hangen.

*Crynodeb y Cadeirydd*

3. Dyma grynodeb y Cadeirydd:

- Byddai rhaid i'r sectorau gwirfoddol, preifat a chyhoeddus wybod sut y byddai'r broses yn gweithio;
- Yr oedd ar y Pwyllgor angen disgrifiad manwl, cam-wrth-gam o'r gweithredu yr oedd ei angen a phryd y byddai'n digwydd;
- yr oedd angen paratoi amcanestyniadau ariannol ar gyfer y Pwyllgor i'w hystyried ochr-yn-ochr â'r dogfennau Rhaglennu.
- Byddai trafodaeth gychwynnol ar Gyllideb y Cynulliad yn cael ei gohirio nes y cyfarfod ar 14 Gorffennaf.

*Camau i'w cymryd*

2.8 Gofynnwyd i'r swyddogion gyflwyno i'r Pwyllgor:

- ddisgrifiad manwl, cam-wrth-gam o'r gweithredu yr oedd ei angen a phryd y byddai'n digwydd;
- a pharatoi amcanestyniadau ariannol ar gyfer y Pwyllgor i'w hystyried ochr-yn-ochr â'r dogfennau Rhaglennu.

**Gweithredu: David Richards/Michael Cochlin**

**Eitem Agenda 3: Ethol dau aelod i ymgymryd â dyletswyddau penodiadau cyhoeddus**

**(EDC-02-99-P2)**

3.1 Gwahoddodd y Cadeirydd enwebiadau gan y Pwyllgor. Cynigiwyd Michael German ac Ann Jones. Gan nad oedd enwebiadau eraill, datganodd y Cadeirydd fod Michael German ac Ann Jones wedi'u hethol i gynrychioli'r Pwyllgor wrth ystyried penodiadau gydag Ysgrifennydd y Cynulliad.

**Eitem Agenda 4: Ystyried y Blaen-raglen Waith (EDC-02-99-P3)**

4.1 Awgrymodd y Cadeirydd ystyried cynnwys y rhaglen yn gyntaf, ac yna amseru'r eitemau. Byddai dau fater yn cymryd rhan helaeth o amser y Pwyllgor hyd ddiwedd mis Hydref, sef Strategaeth Datblygu Cenedlaethol ac ystyriaeth i flaenoriaethau Cyllideb y Cynulliad.

4.2 Dyma brif bwyntiau'r drafodaeth:

- yr oedd yna ddarpariaeth yn amserlen y Cynulliad am un cyfarfod ychwanegol y mis o'r Pwyllgor (brynhawniau Iau). Awgrymwyd y dylid defnyddio'r cyfarfodydd ychwanegol hyn i gymryd tystiolaeth. Yr oedd agen sicrhau nad oedd swyddogion y Cynulliad yn treulio'u holl amser yn paratoi papurau ar gyfer pwyllgorau yn hytrach nag ymgymryd â'u dyletswyddau beunyddiol;
- o ran yr astudiaeth arfaethedig ar ddatblygu busnesau llai, rhaid oedd cynnwys y canlynol: datblygu cymunedol, dieithrwch cymdeithasol a rôl yr CHM. Dylid cynnal cyfarfod ychwanegol ym mis Rhagfyr a ddylai gynnwys cymryd tystiolaeth gan y cyrff perthnasol;
- Dylid cynnwys Cynllun Menter Cymru yn yr astudiaeth hon (byddai'r amseru'n cael ei rhestru);
- Dylid ystyried y cynnydd yn erbyn Ffordd i Ffyniant unwaith y flwyddyn;
- Dylid ymdrin â materion y Bwrdd Croeso gyda'i gilydd os yw'n bosibl;
- Mynegodd y pwyllgor ddiddordeb yn adroddiad y Grp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant (ETAG). Yr oedd am drafod hyn yng ngoleuni cael cydgyfarfod gyda'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed;
- Dylid dod â'r drafodaeth ar gyfleoedd cyfartal ymlaen os yw'n bosibl;
- Byddai o gymorth pe bai'r holl bapurau gerbron y Pwyllgor yn cynnwys adran ar ymdrin â materion trawsbynciol megis cyfleoedd cyfartal a datblygu cynaliadwy;
- Yr oedd rhaid ystyried y cydadwaith rhang y pwyllgorau rhanbarth;
- Yr oed rhaid i'r Pwyllgor ystyried sut y byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r Strategaeth Datblygu Cenedlaethol ac i'r dogfennau Rhaglennu.

*Crynodeb y Cadeirydd*

Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai Blaen-raglen Waith yn cael ei chynhyrchu ar gyfer cyfarfod nesaf y pwyllgor.

*Camau i'w cymryd*

Yr Ysgrifenyddiaeth i adolygu'r Flaen-raglen Waith yng ngoleuni sylwadau'r Pwyllgor.

**Gweithredu: Helen Usher**

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor 01 Gorffennaf 1999**

**PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD EDC-02-99 (min) W**

**Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor**

**Dyddiad:** Dydd Mercher 30 Mehefin 1999

**Amser:** 09:00 - 12:00

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presenoldeb**

*Aelodau*

Ron Davies (Cadeirydd) Caerffili

Alun Cairns Gorllewin De Cymru

Val Feld Dwyrain Abertawe

Michael German Dwyrain De Cymru

Brian Hancock Islwyn

Ann Jones Dyffryn Clwyd

Helen Mary Jones Llanelli

Rhodri Morgan (YC) Gorllewin Caerdydd

Phil Williams Dwyrain De Cymru

Alun Michael (Prif Ysgrifennydd)* Gorllewin a Channolbarth Cymru

** Yn bresennol o dan reol sefydlog 8.17*

*Swyddogion*

Derek Jones Uwch Gyfarwyddwr Materion Economaidd

Michael Cochlin Cyfarwyddwr y Grp Datblygu Economaidd

David Richards Prif Swyddog Cyllid

*Ysgrifenyddiaeth*

Helen Usher Clerc

Vaughan Watkin Dirprwy Glerc (Gweithredol)

**Sylwadau agoriadol y Cadeirydd**

*Croeso*

Croesawodd y Cadeirydd Alun Michael, y Prif Ysgrifennydd, i'r Pwyllgor, ac esbonio bod Mr Michael yn bresennol er mwyn helpu'r Pwyllgor wrth iddynt ystyried materion ariannol (eitem 2 ar yr agenda).

**Eitem Agenda 1: Cofnodion cyfarfod 16 mehefin 1999 (EDC-01-99 (min) (W)**

1.1 Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- ar ôl y cyfarfod yr oedd y swyddogion wedi bod yn edrych ar y gwahaniaeth rhwng y rhagolygon gan BSL a ddyfynnwyd yn y papur (EDC-01-99-P1) a gyflwynwyd i'r Pwyllgor a ffigur BSL a ddyfynnwyd gan y WDA yn ei ddogfen ymgynghori. Yr oedd ffigur y WDA (1.2%) yn anghywir (a dywedwyd hynny wrth yr Aelodau);
- yr oedd yna sylfeini gwahanol ar gyfer cymharu cyfraddau twf;
- at ddibenion y cofnod, yr oedd y Pwyllgor wedi gobeithio y gallai Edwina Hart fod yn bresennol yn y cyfarfod.

3. Dywedodd y cadeirydd wrth y Pwyllgor y câi'r papur gyda'r diweddaraf ar yr adolygiad Ardaloedd Cymorth y gofynnwyd amdano yn y cyfarfod blaenorol ei gylchredeg yn ystod y prynhawn.

*Crynodeb y Cadeirydd*

1.3 Crynhowyd y drafodaeth gan y Cadeirydd fel a ganlyn:

- dylid diwygio indent 10 ac 11 ym mharagraff 2 i ddangos y flwyddyn gywir (1999 nid 2000-01) ac i adlewyrchu'r ffaith nad oedd y Swyddfa Gymreig na'r WDA yn cynhyrchu rhagolygon mewn gwirionedd;
- nad cofnod gair am air oedd y cofnodion ac nad oedd felly yn bosibl cynnwys pob pwynt a godid yn y cofnodion;
- er bod y drafodaeth ar ragolygon wedi codi yn sgil gwallau yn adroddaid ymgynghori cyhoeddus y WDA, yr oedd yn rhaid o hyd i'r cofnodion adlewyrchu'r trafod a gafwyd;
- un o ddyletswyddau'r Pwyllgor oedd craffu ar waith y sgg a'r cyrff a noddid ganddi;
- yr oedd yn siom bod dyddiad cyhoeddi'r Strategaeth Datblygu Genedlaethol a'r Dogfennau Rhaglennu wedi llithro i 14 Gorffennaf, ond yr oedd croeso i'r ailddrafftio sylweddol.
- cytunodd y Pwyllgor y byddai'n barod i ystyried mewn achosion eithriadol ddogfennau yn Saesneg yn unig pe bai hyn yn golygu y gallai'r aelodau gael fersiynau terfynol o'r dogfennau cyn iddynt gael eu cyhoeddi. Cadarnhaedd y Pwyllgor ei ddymuniad (fel a nodir ym mharagraff 3.4 o EDC-01-99(min)) i ystyried y dogfennau cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl ar ôl trefnu eu bod ar gael.

**1.4 Yn ddarostyngedig i'r diwygiadau y cytunwyd arnynt (a nodwyd ym mhwynt 1 uchod) derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o gyfarfod**

**16 Mehefin 1999.**

**Agenda Eitem 2: Materion Ariannol (EDC-02-99(P. 1))**

2.1 Cymerwyd y drafodaeth hon mewn dwy ran: materion yn ymwneud â gweithredu bloc y Swyddfa Gymreig; a materion yn ymwneud ag ychwanegedd. Ymunodd y Prif Ysgrifennydd a Mr David Richards (Prif Swyddog Cyllid y Cynulliad) â'r Pwyllgor ar gyfer y drafodaeth.

*Y Bloc*

2.2 Dyma'r pwyntiau a drafodwyd:

- ers diwedd y 1970au pennwyd yr ychwanegiadau blwyddyn am flwyddyn i'r Bloc Cymreig yn ôl Fformwla Barnett;
- cymhwysid y fformwla hon, a seiliwyd ar boblogaethau cymharol Cymru a Lloegr, at unrhyw newidiadau yng ngwaelodlinau adrannau Lloegr ar gyfer rhaglenni cymaradwy;
- cyflwynwyd y fformwla ar adeg pan oedd ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddatganoli a phan y'i gwelid fel ffordd o osgoi trafodaethau blynyddol anodd ar gyllido yng Nghymru a'r Alban;
- yn y blynyddoedd cynnar gwneid hyn fesul rhaglen, ond yn ddiweddar seiliwyd y cyfrifo ar gyfansymiau adrannol ar gyfer rhaglenni cymaradwy;
- gallai ffactorau cymaradwyedd (a oedd bellach yn cael eu cyhoeddi) newid rhwng y blynyddoedd;
- er bod fformwla Barnett wedi bod yn fecanistig, nes i'r ffactorau cymaradwyedd gael eu cyhoeddi nid oedd wedi bod yn bosibl cysoni newidiadau yng ngwario'r adrannau yn Lloegr â newidiadau i'r Bloc;
- gallai newidiadau yn y ffactorau cymaradwyedd gael effaith fawr ar faint y Bloc;
- cafwyd llawer o newidiadau mewn ffactorau cymaradwyedd rhwng 1998-99 a 1999-2000. Byddai dadansoddiad o'r rhain, gan gynnwys rhesymau a chanlyniadau yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor;
- cyn i fformwla Barnett gael ei gyflwyno yr oedd gwariant y pen yn uwch yng Nghymru nag yn Lloegr. Dyma oedd yn wir o hyd, er bod y gwahaniaeth canrannol wedi erydu oherwydd cyfuno;
- ar ôl yr etholiad ym 1997 ymgymerodd y Llywodraeth ag Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant (CRS). Yr oedd yn ofynnol i bob adran ystyried ei holl wariant am gyfnod o dair blynedd. Ar ôl trafodaethau gyda'r Trysorlys dyrannwyd cyllideb i bob adran dros gyfnod o 3 blynedd a gafodd ei sefydlogi wedyn;
- Pennwyd y Bloc Cymreig drwy gymhwyso Fformwla Barnett at newidiadau y cytunwyd arnynt ar gyfer adrannau eraill o dan y CSR ac yr oedd y gwaelodlinau ar gyfer y 3 blynedd nesaf yn hysbys ac yn sefydlog;
- Gwnaed dyraniadau o fewn y Bloc gan y Gweinidogion ar ôl CSR mewnol;
- Yr oedd y Llywodraeth wedi ymgynghori ar ganlyniadau'r CSR. (Gofynnodd un Aelod am gael gweld yr ymatebion).
- Byddai'r CSR nesaf yn dechrau yn 2000 ac yn cynnwys 2001-02 i 2003-2004;
- Yr oedd cytundeb yn y DU i ystyried, yn ôl eu haeddiant, sylwadau gan y Cynulliad yngln â goblygiadau gwariant cyhoeddus sy'n deillio o statws Amcan 1 yn y CSR nesaf;

- Yr oedd angen i'r Cynulliad gyflwyno i'r Trysorlys achos cryf ar gyfer cyllid ychwanegol os oedd i gymryd mantais o'r cronfeydd sydd ar gael gan y CE;
- yr oedd yna anfanteision a manteision i fformwla Barnett ac yr oedd y Pwyllgor am ystyried a ddylid adolygu'r fformwla;
- nodwyd bod adrannau eraill yn gwario arian yng Nghymru, mwy y pen yn aml yng Nghymru nag yn y rhannau eraill o'r DU. Yr oedd hyn yn aml oherwydd mwy o angen (e.e yr Asiantaeth Budd-daliadau).
- Yr oedd yn annhebygol y byddai Cymru'n cael cyllid ychwanegol ar gyfer 2000-01 heblaw efallai mewn perthynas â mentrau arbennig (e.e yn y gorffennol cafodd Cymru ei rhan o'r arian ychwanegol a ddarparwyd ar sail y DU er mwyn lleddfu argyfwng gwelyau yn y gaeaf);

*Crynodeb y Cadeirydd*

3. Crynhowyd rhan gyntaf y drafodaeth gan y Cadeirydd fel a ganlyn:

- Yr oedd angen i'r Pwyllgor wybod sut yn union y câi'r Bloc Cymreig ei bennu os oedd i wneud penderfyniadau ar wariant, yn enwedig mewn perthynas â rhaglenni y CE;
- Yr oedd angen i'r Cynulliad archwilio pob llwybr er mwyn sicrhau bod cymaint o gyllid â phosibl yn dod i law;
- yr oedd ffactorau cymaradwyedd yn effeithio'n fawr ar faint y Bloc ac yr oedd angen dadansoddiad o'r hyn a newidiodd rhwng 1998-99 a 1999-200, paham y cafwyd y newidiadau hyn a beth oedd y canlyniadau;
- Yr oedd Fformwla Barnett wedi bod ar waith ers dros 20 mlynedd ac yr oedd angen ystyried a oedd yn bryd ei adolygu.

*Camau i'w cymryd*

2.4 Gofynnwyd i'r swyddogion gyflwyno i'r Pwyllgor:

- Ddadansoddiad o'r newidiadau yn y ffactorau cymaradwyedd;
- Papur yn cynnwys dadleuon o blaid ac yn erbyn adolygu Fformwla Barnett;

3. Swyddogion i roi i Ms Feld fanylion o'r ymatebion a ddaeth i law ar gyfer yr ymgynghori ar y CSR diwethaf.

**Gweithredu: David Richards**

*Ychwanegedd*

3. Dyma'r prif bwyntiau:

- yr oedd y DU yn cydymffurfio â rheolau Ewropeaidd a oedd yn ei gwneud yn ofynnol cyfrifo ychwanegedd ar sail y DU;
- Yr oedd y DU wedi cytuno ar sut i ddelio ag ychwanegedd gyda'r CE ym 1992. O dan y setliad nid oedd cyfanswm gwario Llywodraeth y DU wedi cynyddu, ond yr oedd yna wario ychwanegol ar raglenni penodol;
- Amcangyfrifwyd bod rhwng £1.5bn a £2.0bn o gronfeydd strwythurol y CE ar gael i Gymru ar gyfer Amcan 1 a 2 am y cyfnod 2000-06;
- Yr oedd gan y DU nifer o ardaloedd Amcan 1 ond ardaloedd bach oeddent i gyd. Er hynny yr oedd 37 y cant o gyfanswm Amcan 1 yng Nghymru;
- Yr oedd y gwahaniaeth yn golygu na fyddai Cymru'n cael cyfran deg o wariant a gyllidir gan y CE pe defnyddid Fformwla Barnett yn unig (ni fyddai ond yn cael 5.95 y cant ar hyn o bryd);
- Yr oedd yna awgrym na ddylai cyllid Ewropeaidd gael ei gynnwys yn y ffigur wrth gymhwyso fformwla Barnett. Yna byddai cronfeydd Ewropeaidd yn cael eu dyrannu'n uniongyrchol;
- Yr oedd pryder y gallai adrannau yn Lloegr gael mynediad i gronfeydd y CE yn gynt na Chymru am bod ganddynt fwy o hyblygrwydd yn eu cyllidebau;
- Rhyw £40m y flwyddyn oedd y gwaelodlin hanesyddol ar gyfer cronfeydd strwythurol yn y Bloc. Byddai cyllid ychwanegol yn 2001-02 a'r ddwy flynedd wedyn yn cael ei ystyried yn ystod y CSR nesaf;
- Ar gyfer Gronfa Gymdeithasol Ewrop, byddai'n ofynnol i'r Adran Addysg a Chyflogaeth ddod o hyd i gyllid ar gyfer rhaglenni yng Nghymru;
- Yr oedd cynnydd cynlluniau'n araf a'r gwir gwestiwn oedd a oedd y £40m ar gyfer y flwyddyn gyntaf yn ddigon i sicrhau y byddai unrhyw gynlluniau a all ddechrau yn gallu gwneud hynny;
- yr oedd angen i'r Llywodraeth ddangos yn y Rhaglen Ddogfennu a gyflwynid ganddi i'r CE y gellid bodloni rhwymedigaethau cyllido. Yr oedd angen i hon gynnwys amcanestyniadau o ran faint o gyllid y byddai ar y sectorau preifat a gwirfoddol eu hangen.

*Crynodeb y Cadeirydd*

3. Dyma grynodeb y Cadeirydd:

- Byddai rhaid i'r sectorau gwirfoddol, preifat a chyhoeddus wybod sut y byddai'r broses yn gweithio;
- Yr oedd ar y Pwyllgor angen disgrifiad manwl, cam-wrth-gam o'r gweithredu yr oedd ei angen a phryd y byddai'n digwydd;

- yr oedd angen paratoi amcanestyniadau ariannol ar gyfer y Pwyllgor i'w hystyried ochr-yn-ochr â'r dogfennau Rhaglennu.
- Byddai trafodaeth gychwynnol ar Gyllideb y Cynulliad yn cael ei gohirio nes y cyfarfod ar 14 Gorffennaf.

*Camau i'w cymryd*

2.8 Gofynnwyd i'r swyddogion gyflwyno i'r Pwyllgor:

- ddisgrifiad manwl, cam-wrth-gam o'r gweithredu yr oedd ei angen a phryd y byddai'n digwydd;
- a pharatoi amcanestyniadau ariannol ar gyfer y Pwyllgor i'w hystyried ochr-yn-ochr â'r dogfennau Rhaglennu.

**Gweithredu: David Richards/Michael Cochlin**

**Eitem Agenda 3: Ethol dau aelod i ymgymryd â dyletswyddau penodiadau cyhoeddus (EDC-02-99-P2)**

3.1 Gwahoddodd y Cadeirydd enwebiadau gan y Pwyllgor. Cynigiwyd Michael German ac Ann Jones. Gan nad oedd enwebiadau eraill, datganodd y Cadeirydd fod Michael German ac Ann Jones wedi'u hethol i gynrychioli'r Pwyllgor wrth ystyried penodiadau gydag Ysgrifennydd y Cynulliad.

**Eitem Agenda 4: Ystyried y Blaen-raglen Waith (EDC-02-99-P3)**

4.1 Awgrymodd y Cadeirydd ystyried cynnwys y rhaglen yn gyntaf, ac yna amseru'r eitemau. Byddai dau fater yn cymryd rhan helaeth o amser y Pwyllgor hyd ddiwedd mis Hydref, sef Strategaeth Datblygu Cenedlaethol ac ystyriaeth i flaenoriaethau Cyllideb y Cynulliad.

4.2 Dyma brif bwyntiau'r drafodaeth:

- yr oedd yna ddarpariaeth yn amserlen y Cynulliad am un cyfarfod ychwanegol y mis o'r Pwyllgor (brynhawniau Iau). Awgrymwyd y dylid defnyddio'r cyfarfodydd ychwanegol hyn i gymryd tystiolaeth. Yr oedd agen sicrhau nad oedd swyddogion y Cynulliad yn treulio'u holl amser yn paratoi papurau ar gyfer pwyllgorau yn hytrach nag ymgymryd â'u dyletswyddau beunyddiol;
- o ran yr astudiaeth arfaethedig ar ddatblygu busnesau llai, rhaid oedd cynnwys y canlynol: datblygu cymunedol, dieithrwch cymdeithasol a rôl yr CHM. Dylid cynnal cyfarfod ychwanegol ym mis Rhagfyr a ddylai gynnwys cymryd tystiolaeth gan y cyrff perthnasol;
- Dylid cynnwys Cynllun Menter Cymru yn yr astudiaeth hon (byddai'r amseru'n cael ei

rhestru);

- Dylid ystyried y cynnydd yn erbyn Ffordd i Ffyniant unwaith y flwyddyn;
- Dylid ymdrin â materion y Bwrdd Croeso gyda'i gilydd os yw'n bosibl;
- Mynegodd y pwyllgor ddiddordeb yn adroddiad y Grp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant (ETAG). Yr oedd am drafod hyn yng ngoleuni cael cydgyfarfod gyda'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed;
- Dylid dod â'r drafodaeth ar gyfleoedd cyfartal ymlaen os yw'n bosibl;
- Byddai o gymorth pe bai'r holl bapurau gerbron y Pwyllgor yn cynnwys adran ar ymdrin â materion trawsbynciol megis cyfleoedd cyfartal a datblygu cynaliadwy;
- Yr oedd rhaid ystyried y cydadwaith rhang y pwyllgorau rhanbarth;
- Yr oed rhaid i'r Pwyllgor ystyried sut y byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r Strategaeth Datblygu Cenedlaethol ac i'r dogfennau Rhaglennu.

*Crynodeb y Cadeirydd*

Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai Blaen-raglen Waith yn cael ei chynhyrchu ar gyfer cyfarfod nesaf y pwyllgor.

*Camau i'w cymryd*

Yr Ysgrifenyddiaeth i adolygu'r Flaen-raglen Waith yng ngoleuni sylwadau'r Pwyllgor.

**Gweithredu: Helen Usher**

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor 01 Gorffennaf 1999**